Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Datganiad Amgylcheddol Canolfan Craflwyn 2008

Beth yw Canolfan Craflwyn?

Mae Craflwyn yn ganolfan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n cynnig amgylchedd unigryw ar gyfer gwirfoddoli, hyfforddi, dysgu, cynadleddau a gwyliau diddordebau arbennig. Mae'r ganolfan yn lleoliad ar gyfer gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ardal Gorllewin Eryri a Llŷn ac mae'n cynnwys amrywiaeth o lety, safle gwersylla, swyddfeydd a chyfleusterau storio.

Beth yw ein Heffeithiau Amgylcheddol?

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghraflwyn yn cydnabod ei chyfrifoldeb i gyfyngu ei heffaith ar yr amgylchedd a bydd yn cynnal ei gweithgareddau i arddangos arferion gorau a hyrwyddo cynaladwyedd. Mae effeithiau amgylcheddol Craflwyn yn gysylltiedig yn bennaf â rhedeg y ganolfan a gweithrediadau sy'n seiliedig ar Graflwyn ac sy'n digwydd dros y stad ehangach. Yn ôl ein natur, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni swm sylweddol o effeithiau amgylcheddol positif ledled yr ardal. Fodd bynnag, mae'r prif effeithiau amgylcheddol negatif yn gysylltiedig â'r:

- Defnydd o drydan, olew, LPG, disel a phetrol.
- Gwarediad gwastraff cyffredinol i dirlenwi.
- Cyflenwad a gwarediad dŵr.
- Defnydd o nwyddau crai.

Beth yw ein Hymrwymiadau i Leihau ein Hôl Troed Amgylcheddol?

Mae pawb yng Nghraflwyn yn ymroddedig i leihau ein hôl troed amgylcheddol yn barhaus drwy:

- Leihau'r defnydd o ynni a hyrwyddo defnydd effeithlon o ynni gan ein gwesteion
- Isafu gwastraff drwy ailgylchu
- Monitro'r defnydd o adnoddau a chynhyrchu gwastraff a chyfathrebu'r canlyniadau gyda buddgyfranogwyr
- Lleihau'r defnydd o gemegau i'r isafswm ac atal llygredd
- Lleihau'r defnydd o ddŵr
- Lleihau effaith teithio ar yr amgylcheddol drwy ddefnyddio cerbydau'n effeithlon a defnyddio cludiant cyhoeddus a beiciau
- Sicrhau bod defnyddiau, nwyddau a gwasanaethau'n cynnal y polisi amgylcheddol ac annog cyflenwyr i wella eu perfformiad amgylcheddol.
- Gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus drwy osod targedau a chofnodi canlyniadau.
- Cynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth o faterion cynaladwyedd ymysg ein gweithlu a chodi ymwybyddiaeth ein hymwelwyr
- Cydymffurfio â phob Deddfwriaeth Amgylcheddol Ewropeaidd a'r DU ac arferion amgylcheddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Datganiad Amgylcheddol Canolfan Craflwyn 2008

Adroddiad Cynnydd 2008

Mae Craflwyn yn dod yn gynyddol boblogaidd fel lleoliad i briodasau

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cynnydd parhaus yn nifer y bwciadau ar gyfer cyfarfodydd, priodasau a digwyddiadau eraill. Cafwyd 24 o briodasau yn y Neuadd ac roedd cyfradd llenwi ar gyfer pob mathau o grwpiau'n 62%, i fyny o 9% ar y flwyddyn flaenorol. Gyda digwyddiad fel hyn mae yna nifer cynyddol o bobl yn defnyddio'r neuadd er nad yn aros dros nos o angenrheidrwydd. Roedd 17 o wyliau gweithio wedi eu lleoli yng Nghraflwyn yn ystod y flwyddyn ac fe arhosodd 57 o bobl ifanc yn yr yurts fel rhan o fenter ieuenctid HERYRI. Rhoddodd dros 580 o wirfoddolwyr eu hamser i weithio gyda ni, gyda 7284 o oriau gwirfoddoli ar brosiectau amgylcheddol yn yr ardal. Mae cyfraddau llenwi Canolfan Deilen Las wedi codi i 23%; cynnydd o 5%. Er y cafwyd rhai newidiadau staffio yn ystod 2008, mae cyfanswm nifer y staff sydd wedi eu lleoli yng Nghraflwyn yn dal yn 13, sy'n cynnwys 1 Gwirfoddolwr Tymor Hir, a oedd yn byw ar y safle. Disgrifir cynnydd ar ein cyflawniadau amgylcheddol isod.

Addysg

Y datblygiad mwyaf cyffrous eleni oedd datblygiad menter ieuenctid HERYRI lle bu 57 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau peilot yn canolbwyntio ar ein cydberthynas â'n hamgylchedd gan bwysleisio pwysigrwydd cynaladwyedd a'r angen i leihau ein heffaith ar y blaned.

Yurts Mongolaidd – 'cartref' i gyfranogwyr HERYRI

Yn ystod y flwyddyn fe barhawyd i addysgu ein gwestai a'n staff am nodweddion amgylcheddol Craflwyn a sut y gallent gynorthwyo gyda chyflawni ein targedau ar gyfer lleihau ein defnydd o ynni a dŵr ac un o'r ffyrdd y gwnaethom hynny oedd seilio ein helfa Wy Pasg ar y llwybr eco.

Gwyliau gweithio'n gosod pibell micro-hydro

Defnyddio Ynni

I alluogi prosiect HERYRI i fod â'r ôl troed carbon lleiaf posib ac i gynorthwyo gyda datblygu seilwaith HERYRI, fe osodwyd system micro-hydro ym mis Ebrill gan dîm o wirfoddolwyr. Mae'r system yn cynhyrchu 200w o drydan sy'n cael ei storio mewn batris a'i ddefnyddio i redeg llusernau ar gyfer golau. O ganlyniad nid yw'r gwersyll yurt yn defnyddio trydan y prif wasanaeth.

Ar weddill y safle yn 2008 fe gynyddodd ein defnydd o ynni oherwydd cyfradd llenwi uwch a mwy o weithgaredd ar y safle a hefyd o ganlyniad i'r gaeaf a oedd yn arbennig o hir ac oer. Er bod y defnydd o LPG wedi cynyddu o 17.6% i 23192 litr ac olew gwresogi wedi cynyddu o 60% i 2500 litr, roedd yn gyflawniad sylweddol bod y defnydd o drydan wedi cynyddu o ddim ond 0.8% 79513kWh o ystyried ei bod yn angenrheidiol defnyddio gwresogyddion trydan yn ystafell seminar a swyddfeydd Canolfan Deilen Las gan nad oedd y boiler biomass a osodwyd yn 2007 mor effeithlon ag y disgwylid. Yn y neuadd, parhaodd y system adfer gwres i berfformio'n dda a dim ond yn ystod y cyfnodau oeraf yr oedd angen defnyddio'r boiler cyfnerthu ac roedd yn gyfartal â llai na 15% o'r flwyddyn. Er y cynnydd amlwg yn nefnydd LPG ac olew gwresogi, roddem er hynny'n gallu cwtogi'n sylweddol ar ein defnydd o gerbydau ac o ganlyniad fe gynyddodd ein hallyriadau CO_2 o ddim ond 5% i 87,921kg.

Gwastraff
Rydym yn parhau i ailgylchu tua 50% o'n gwastraff er y problemau gyda gwasanaethau casglu sydd wedi golygu ein bod wedi gorfod archwilio a chontractio cwmnïau newydd i ymgymryd â'r gwasanaeth hwn. Fe ymgymerwyd yn gymeradwy ag archwiliad gwastraff ac fe brofodd hynny ein bod yn ailgylchu'n dda, gydag ailgylchu tun a gwydr yn gyflawniad nodedig wedi gwella o 100% a 50% yn eu tro. Ond dangosodd hefyd fod yna le i wella gydag ailgylchu gan ein gwesteion.

Dŵr
Cafwyd cynnydd mewn defnydd o ddŵr o 8% i 870.5 m^3, sy'n cydberthyn yn uniongyrchol â'r cynnydd mewn cyfradd llenwi. Ond nid yw'r gyfradd llenwi'n adlewyrchu nifer y bobl sy'n defnyddio'r safle o angenrheidrwydd. Ceir nifer uchel o westeion ar gyfer bwciadau priodasau, er enghraifft ond ni fyddant yn aros ar y safle. Er hynny ceir cynnydd yn y defnydd o ddŵr oherwydd y cynnydd mewn bwciadau mawr yn y neuadd.

Trafnidiaeth
Yn ystod 2008, fe adleolwyd y tîm wardeniaid i Hafod y Llan, gan leihau nifer y cerbydau a leolwyd yng Nghraflwyn i 4 a dod â chyfanswm y defnydd o danwydd i lawr i 4553 litr, lleihad o bron i 45% ar y flwyddyn flaenorol. Hefyd, i annog ein cwsmeriaid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus rydym yn awr yn cynnig disgownt i gwsmeriaid Craflwyn fydd yn cyrraedd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus.

Caffael

Yn 2008 bu newid yn yr arlwywr sy'n cyflenwi ein gofynion arlwyo busnes i un sy'n arddel ethos yr YG o ffynonellu'n lleol. Gan ddilyn polisi caffael canolog mae'r cwmni ecogyfeillgar BUNZL yn awr yn cyflenwi holl eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda phethau tafladwy, gan gyfuno dargludiadau aml-eiddo ac felly leihau nifer y dargludiadau i eiddo unigol. O ganlyniad roedd yn rhaid cael gwared â'r dosbarthwyr papur toiled presennol ond fe'u dychwelwyd at y cyflenwr blaenorol i'w hailddefnyddio'n hytrach na'u hailgylchu.

Ein Hamcanion a'n Targedau:

Yn ystod 2009 byddwn yn ymdrechu i leihau ein:

- Allyriadau CO_2 o 10% i 79129kg
- Defnydd o drydan o 5% i 75,536kWh
- Defnydd o Danwydd Ffosil o 10% sy'n gyfartal â gostyngiad o 5370kg mewn allyriadau CO_2
- Defnydd o ddŵr o 5% i 827m^3

Amcanion eraill sy'n cael eu cynllunio yw:

- Gosod boiler peledi biomas fel ffordd o leihau'r defnydd o olew a thrydan
- Gosod switshis amseru fel ffordd o leihau ein defnydd o drydan
- Ymchwilio toiledau 'gwyrdd' ar gyfer y gwersyll yurt.

Arwyddwyd:

Richard Neale

Rheolwr Eiddo

Mawrth 2009